Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4660A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych 4

Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad 5

Yr hyn a ganfuom 8

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio a monitro ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, ceir gwendidau o ran gwerthuso manteision a rhannu gwybodaeth 9

Mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio ei raglen gyfalaf gyda chysylltiadau eglur â'r strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant 9

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro a rheoli'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, nid yw'n mynd ati'n systematig i werthuso a yw pob prosiect a gwblhawyd wedi gwireddu ei fanteision bwriadedig 10

Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau i reoli ei raglen gyfalaf, ond ni wneir hyn yn gyson ar draws y sefydliad 11

Ein hargymhellion i'r Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

#### Ein dyletswyddau archwilio

1 Fe gynhaliom ni'r archwiliad hwn dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn:

- adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi (neu beidio) bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau; ac
- adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

#### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

2 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- cael sicrwydd bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i ddatblygu, cyflawni a monitro ei raglen gyfalaf i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau ac i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith; ac
- adnabod sut y gall y Cyngor gryfhau ei drefniadau.

3 Defnyddiwn y gair priodol i olygu trefniadau priodol fel a ddiffinnir gan y meini prawf archwilio sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

### Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a sut y mae da'n edrych[1]

4 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddatblygu a chyflawni ei raglen gyfalaf?**

5 Fe ddefnyddiom ni'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos sut y mae'r meini prawf yn berthnasol i'r cwestiynau archwilio.

[1] A ddiffinnir fel 'yr hyn ddylai fod' yn ôl cyfreithiau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn ôl arfer gorau, neu 'yr hyn a allai fod', pe bai'r amodau'n well.

## Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliom ni'r archwiliad

6 Roedd y dulliau archwilio'n cynnwys cyfweliadau gyda rhai Uwch Swyddogion, un Aelod Etholedig ac arweinwyr prosiectau ar gyfer y prosiectau enghreifftiol, adolygiad o bapurau a chofnodion pwyllgorau a byrddau perthnasol ac adolygiad o ddogfennau perthnasol eraill.

7 Fe wnaethom gynnal profion samplu o'r modd y cymhwysir trefniadau rheoli prosiectau cyfalaf a rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer tri phrosiect cyfalaf olrhain. Ni wnaethom gynnal adolygiad manwl o'r prosiectau hyn ond fe wnaethom ystyried y rhain mewn perthynas â'n meini prawf archwilio fel a nodir yn atodiad 1. Y prosiectau a adolygwyd gennym oedd:

- Gwaith i Argae Parc y Rhath (a oedd yn ofynnol dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975)
- Datblygiad tai a chanolfan drafnidiaeth Heol Waungron
- Gosod to newydd ar Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern

8 Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn. Fe wnaethom ni'r gwaith hwn rhwng mis Mai a mis Medi 2024.

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu

9 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei raglen gyfalaf. Fe wnaethom fwrw golwg ar sut y mae'r Cyngor yn dylunio ei raglen gyfalaf, sut y mae'n monitro'r modd y cyflawnir y rhaglen a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau. Fe wnaethom hefyd ystyried y risgiau a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â dyluniad a chyflawni'r rhaglen gyfalaf.

10 Mae gwariant cyfalaf yn ymwneud â buddsoddiadau mewn asedau megis adeiladau a seilwaith trafnidiaeth. Gall gynnwys prynu neu adeiladu asedau, ond hefyd eu helaethu a'u gwella. Mae gwariant cyfalaf yn gyfran sylweddol o wariant llywodraeth leol: ledled Cymru, roedd cynghorau'n rhagweld gwariant cyfalaf o ychydig o dan £2.3 biliwn yn ystod 2023-24[2] ac roedd gwariant alldro cyfalaf ar gyfer 2023-24 oddeutu £1.8 biliwn[3].

11 Yng Nghaerdydd, roedd y Cyngor yn rhagweld gwariant cyfalaf o oddeutu £458 miliwn yn ystod 2024-25 ac fe wariodd £301 miliwn ar brosiectau cyfalaf yn 2023-24. Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos bod gwariant cyfalaf y Cyngor rhwng 2014-15 a 2023-24 bron yn £1.83 biliwn[4].


[2] Cyfalaf a Ragwelir, yn ôl gwasanaeth (llyw.cymru)

[3] Gwariant alldro cyfalaf, yn ôl awdurdod (llyw.cymru)

[4] Roedd gwariant cyfalaf yn anarferol o uchel yn 2015-16 gan bod y Cyngor wedi talu £187 miliwn i adael system cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a dod yn gyngor sy'n hunangyllido (fel y gwnaeth y cynghorau eraill yng Nghymru â stoc dai).

**Arddangosyn 1: gwariant cyfalaf rhwng 2014-15 a 2023-24**[5]

Mae'r siart isod yn nodi faint wariodd y Cyngor ar brosiectau cyfalaf rhwng 2014-15 a 2023-24.





12 Cyllidir y rhan fwyaf o wariant cyfalaf â grantiau, derbyniadau cyfalaf (o werthu asedau eraill) a benthyca darbodus. Dengys **Arddangosyn 2** fod y ffordd y cyllidir prosiectau cyfalaf yn amrywio rhwng blynyddoedd yn ôl argaeledd gwahanol ffynonellau cyllid. Dros y blynyddoedd diwethaf, grantiau fu'r brif ffynhonnell cyllid, gan roi cyfrif am 51% (£163 miliwn) o gyfanswm y cyllid yn 2023-24. Mae hyn yn adlewyrchu amseriad a gwerth cynlluniau grant sydd ar gael, a gofynion gwariant cyfalaf yn y blynyddoedd hynny.

13 Mewn cyferbyniad, dim ond 11% (£33 miliwn) o wariant cyfalaf a gyllidwyd â grantiau yn 2015-16, pan mai benthyca oedd y brif ffynhonnell incwm: 85% (£244 miliwn). Fodd bynnag, roedd gwariant cyfalaf yn 2015-16 yn anarferol o uchel oherwydd y £187 miliwn y talodd y Cyngor i Drysorlys EM i adael system cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a dod yn gyngor sy'n hunangyllido (fel y gwnaeth y cynghorau eraill yng Nghymru â stoc dai).

[5] Gwariant alldro cyfalaf, yn ôl Awdurdod (£ mil) (llyw.cymru)

**Arddangosyn 2: ffynonellau cyllid gwariant cyfalaf rhwng 2014-15 a 2023-24**[6]

Mae'r siart isod yn nodi sut y cyllidodd y Cyngor ei brosiectau cyfalaf rhwng 2014-15 a 2023-24.




14 Mae cyllid o fenthyciadau a derbyniadau cyfalaf yn rhoi mwy o reolaeth i'r Cyngor dros ei raglen gyfalaf, gan bod cyllid grant yn aml yn amodol ar feini prawf llym o ran pa brosiectau cyfalaf ellir eu cyllido. Ond cyfyngir ar fenthyciadau a derbyniadau cyfalaf gan eu fforddiadwyedd a'u hargaeledd.

15 Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor 2024-25 yn nodi bod y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (mesur o'r gwariant cyfalaf a gafodd y Cyngor yn hanesyddol nad yw wedi cael ei gyllido o Gronfa'r Cyngor eto) yn mynd i fod yn cynyddu o'r £920 miliwn a nodwyd yn 2023 i £1,573 miliwn yn 2029 yn ôl yr amcangyfrif. Mae'r strategaeth hefyd yn rhagweld y bydd y gyfran o gyllideb refeniw'r Cyngor a fydd yn cael ei neilltuo i dalu costau benthyca'n cynyddu, gan olygu bod cynllunio'r rhaglen gyfalaf yn gadarn yn bwysicach nag erioed.

16 O ystyried effaith ariannol fyrdymor a hirdymor y rhaglen gyfalaf, mae'n bwysig bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau bod ei wariant cyfalaf yn sicrhau gwerth am arian. A chan bod prosiectau cyfalaf yn aml wedi'u bwriadu i wireddu manteision dros raddfa amser hir, mae lawn cyn bwysiced bod y Cyngor yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth gynllunio a chyflawni ei raglenni cyfalaf.

[6] Cyllid alldro cyfalaf yn ôl ffynhonnell y cyllid (£ mil) (llyw.cymru)

## Yr hyn a ganfuom

17 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddylunio a chyflawni ei raglen cyfalaf?

18 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio a monitro ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, ceir gwendidau o ran gwerthuso manteision a rhannu gwybodaeth**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio ei raglen gyfalaf gyda chysylltiadau eglur â'r strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant.
- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro a rheoli'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, nid yw'n mynd ati'n systematig i werthuso a yw pob prosiect a gwblhawyd wedi gwireddu ei fanteision bwriadedig.
- Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau i reoli ei raglen gyfalaf, ond ni wneir hyn yn gyson ar draws y sefydliad.

# Mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio a monitro ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, ceir gwendidau o ran gwerthuso manteision a rhannu gwybodaeth

## Mae gan y Cyngor drefniadau da fel rheol i gynllunio ei raglen gyfalaf gyda chysylltiadau eglur â'r strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant

19 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- wrth ddatblygu ei raglen a'i strategaeth gyfalaf, mae'r Cyngor yn cynnwys ystod ac amrywiaeth o leisiau ond yn cydnabod bod mwy i'w wneud o ran ymgysylltu. Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaethom yn ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb[7], dywedodd y Cyngor wrthym eu bod yn y broses o wneud gwelliannau i sicrhau yr ymgysylltir â'r holl grwpiau wrth ystyried newidiadau i wasanaethau neu gynigion ar gyfer y gyllideb.
- fe welsom rai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod ein hadolygiad o'r prosiectau olrhain. Er enghraifft, mae holl gynlluniau'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion wedi bod trwy ymgyngoriadau llawn ynghylch trefniadaeth ysgolion. Ar gyfer prosiect Argae Parc y Rhath, mae'r Cyngor wedi cynnal dau ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhaliwyd y rhain yn y cyfnod cychwynnol a'r cyfnod dylunio ac roeddent yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â chydraddoldeb. Fe'u cynhaliwyd trwy amrywiaeth o ymgysylltu ar y cyfryngau ac wyneb yn wyneb.
- mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cyrraedd nodau hirdymor ei raglen gyfalaf yn ystod y broses o bennu'r gyllideb. Yng nghyllideb y Cyngor 2024-25, mae pob elfen o'r rhaglen gyfalaf wedi'i chysylltu ag un neu fwy o'r amcanion llesiant. Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant trwy fesur cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â thargedau penodol. Er enghraifft, dan yr amcan llesiant 'Cymunedau Diogel, Hyderus sydd wedi'u Grymuso', mae gan y Cyngor darged treigl o 4,000 o gartrefi newydd a ddarparwyd hyd yma.
- ar gyfer prosiectau unigol, mae'r ystyriaeth i fanteision yn amrywio, gan ddibynnu pa fath o brosiect sy'n cael ei ystyried a sut y bydd yn cael ei gyllido. Er enghraifft, ar gyfer prosiectau cludiant i ysgolion ac adfywio mawr rhaid defnyddio templedi a fandadwyd gan Lywodraeth Cymru a rhaid iddynt gael eu goruchwylio ganddi. Rhaid i brosiectau tai gynnwys asesiad

[7] Adolygiad Archwilio Cymru o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng Nghyngor Caerdydd Ebrill 2024

hyfywedd yn eu hachosion busnes. Mae gan y Cyngor dempled safonol ar gyfer achosion busnes (ar gyfer prosiectau nad ydynt yn perthyn i'r categorïau uchod) sy'n cynnwys ystyried manteision; fodd bynnag, fe adolygodd y Cyngor hwn ddiwethaf yn 2014-15 ac mae'n cyfeirio at drefniadau llywodraethu a ddisodlwyd. Mae hyn yn creu risg na fydd y templed yn cael ei gwblhau i'r safonau sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth fwy diweddar ac na fydd yr achos busnes yn dilyn y prosesau rheoli a llywodraethu priodol.

- roedd y prosiectau enghreifftiol a adolygwyd gennym ni i gyd wedi cael eu cynllunio a'u cymeradwyo'n briodol (ac eithrio gwaith i Argae Parc y Rhath sy'n dal ar y cam dichonoldeb a heb gael ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo eto) gydag ystyriaeth resymol wedi cael ei rhoi i werth am arian. Wrth adolygu'r prosiectau hyn gwelwyd tystiolaeth o ystyried ystod eang o fanteision (gan gynnwys cyrraedd nodau tymor hwy'r Cyngor) ar draws y prosiectau hyn. Er enghraifft, roedd y penderfyniad i gynnwys Waun Gron yn rhaglen Datblygu Tai Cartrefi Caerdydd yn seiliedig ar angen hirdymor am ragor o dai yn ardal Caerdydd ac mae hefyd wedi'i fwriadu i ddwyn manteision o ran adeiladu tai'n gyflym a defnyddio safle tir llwyd.
- mae proses pennu cyllideb y Cyngor yn nodi'n effeithiol pa adnoddau fydd eu hangen i gyflawni ei strategaeth gyfalaf dros y tymor byr, canolig a hwy. Mae'r broses hon hefyd yn dangos ystyriaeth i oblygiadau'r rhaglen gyfalaf o ran fforddiadwyedd a refeniw, a bod y Cyngor yn addasu'r rhaglen yn briodol.
- mae'r Cyngor yn dangos trwy ei brosesau ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb (gan gynnwys ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig) ei fod yn deall yn glir beth yw effaith ei fenthyciadau dros y tymor byr, canolig a hir ac mae hyn yn cael ei gynnwys fel ystyriaeth lawn yn ei gynllun ariannol tymor canolig.
- mae trefniadau ariannol a llywodraethu da'r Cyngor yn ei alluogi i gynllunio ei raglen gyfalaf yn ddarbodus ac yn effeithlon. Fodd bynnag, nes ei fod yn gwella ei ymgysylltiad â'r cyhoedd, ni all fod yn siŵr bod ei raglen gyfalaf yn diwallu anghenion ei ddinasyddion a'i gymunedau'n llawn ac felly ei bod yn effeithiol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro a rheoli'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf; fodd bynnag, nid yw'n mynd ati'n systematig i werthuso a yw pob prosiect a gwblhawyd wedi gwireddu ei fanteision bwriadedig

20 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cynhwysfawr i fonitro ei raglen gyfalaf a phrosiectau unigol o safbwynt gwerth am arian, yn ystod cyfnod cyflawni ei brosiectau cyfalaf.
- mae swyddogion yn darparu adroddiadau monitro'r gyllideb yn chwarterol ar gyfer y Cabinet; mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys diweddariadau ar

gynnydd o ran gwariant y rhaglen gyfalaf yn erbyn y gyllideb gan gynnwys unrhyw lithriant a gorwariant/tanwariant gan brosiectau. Ceir Byrddau arbenigol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch yr elfennau mwyaf arwyddocaol o'r rhaglen gyfalaf (Tai, Ysgolion a Phrosiectau Mawr).

- mae gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni prosiectau ar amser ond hanes da yn gyffredinol o gyflawni prosiectau o fewn y gyllideb. Lle nad yw prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn y gyllideb a/neu ar amser, mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredu, megis peirianneg gwerth neu ohirio prosiectau i wneud lle i gynlluniau sydd wedi costio mwy nag a ragwelwyd.
- mae'r Cyngor yn adrodd ar gynnydd rhai o'i brosiectau cyfalaf allweddol ac effaith y prosiectau hyn ar yr amcan(ion) llesiant perthnasol, o fewn ei Adroddiadau Llesiant blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i werthuso a yw pob prosiect cyfalaf wedi gwireddu ei fanteision bwriadedig.
- os nad yw'r Cyngor yn mynd ati'n gyson i werthuso ei brosiectau cyfalaf unwaith y maent wedi cael eu cwblhau, ni all fod wedi'i sicrhau bod y prosiectau wedi cyflawni'r deilliant a fwriadwyd pan gynlluniwyd y prosiect ac felly a yw'r Cyngor wedi cyflawni gwerth am arian mewn perthynas â'i wariant ar y prosiect.

## Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau i reoli ei raglen gyfalaf, ond ni wneir hyn yn gyson ar draws y sefydliad

21 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli ei raglen gyfalaf ar sail ad hoc. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2023, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau adolygiad o'r amgylchedd rheoli o fewn ei Chyfarwyddiaeth hi (sy'n cynnwys y rhaglen gyfalaf Tai) i Bwyllgor Llywodraethu a Risg y Cyngor. Roedd hwn yn cynnwys ystyriaeth i elfennau allweddol o reoli'r rhaglen gyfalaf e.e. trefniadau llywodraethu, rheoli risg (yn enwedig y risg na fyddai'r Cyngor yn cyrraedd ei dargedau adeiladu tai) a sut y mae'r Cyngor yn cael sicrwydd ynghylch hyfywedd ariannol ei brosiectau tai.
- lle mae'r Cyngor yn adnabod mwy o risg mewn perthynas â chyflawni unrhyw agweddau arwyddocaol ar ei raglen gyfalaf, mae'n diweddaru trefniadau llywodraethu i adlewyrchu lefel y risg. Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor sefydlu'r Bwrdd Tai, Bwrdd y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion a'r Bwrdd Prosiectau Mawr i adlewyrchu cymhlethdod cynyddol a graddfa gynyddol rhaglen gyfalaf y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i adolygu holl drefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf.
- i oleuo ei raglen gyfalaf, mae'r Cyngor yn dysgu oddi wrth gynghorau tebyg ac yn cymharu ei sefyllfa â hwy. Er enghraifft, fe aeth tîm cyflawni'r Prosiect

Crossrail ar ymweliad ag un o safleoedd Cyngor Dinas Manceinion i ddysgu o'i brofiad o adeiladu system tramiau yng nghanol y ddinas.

- mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso rhai gwersi a ddysgwyd o'i brosiectau cyfalaf; er enghraifft, mae'r dadansoddiad o fewn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol yn cyfrannu at bennu blaenoriaethau a chamau gwella'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.
- i gofnodi gwersi i'w dysgu, mae timau cyflawni prosiectau'n cynnal cyfarfodydd ôl-drafodaeth ac yn myfyrio ar y modd y cyflawnwyd prosiectau o fewn cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, ar lefel gorfforaethol mae'r ffocws ar brosiectau mawr y Cyngor ac nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i rannu profiad a gwersi o brosiectau cyfalaf a gwblhawyd ar draws y sefydliad.
- os nad yw'r Cyngor yn rhannu profiad a gwersi'n gyson ar draws y sefydliad, gall camgymeriadau gael eu hailadrodd, ac efallai na fydd gwaith i gynllunio prosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn cael budd o arfer da a brofwyd yn ystod prosiectau cyfalaf blaenorol. Ac os nad yw'r Cyngor yn mynd ati'n systematig i adolygu trefniadau rheoli'r rhaglen gyfalaf, ni all fod wedi'i sicrhau bod trefniadau rheoli ei raglen gyfalaf yn cyflawni gwerth am arian.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 3: ein hargymhellion i'r Cyngor**

| **Argymhellion** |
| --- |
| • A1 – Dylai'r Cyngor adolygu ei dempledi a chanllawiau ar gyfer achosion busnes, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau eraill ar gyfer cynllunio prosiectau cyfalaf i sicrhau y gellir eu rhoi ar waith yn gyson lle y bo'n briodol. |
| • A2 –Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau i werthuso manteision prosiectau cyfalaf a gwblhawyd i sicrhau ei fod yn asesu a yw'r deilliannau y dymunwyd eu cael o brosiect wedi cael eu cyflawni. Dylai'r Cyngor sicrhau y rhoddir sylw dyladwy i gymesuredd yr asesiadau hyn. |
| • A3 – Dylai'r Cyngor wella ei drefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am brosiectau cyfalaf a gwblhawyd, i sicrhau bod meysydd da a meysydd i'w gwella'n cael eu cofnodi, a bod gwersi'n cael eu rhannu'n gyson ar draws y sefydliad. |

**Argymhellion**

- A4 – Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd ati'n systematig i adolygu effeithiolrwydd yr holl drefniadau i reoli ei raglen gyfalaf. Dylid adolygu pob trefniant ar fynychder sy'n gymesur â lefel risg y prosiectau cyfalaf dan y trefniant hwnnw.

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Arddangosyn 5: y prif gwestiwn archwilio**

A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddatblygu a chyflawni ei raglen gyfalaf?

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio[8] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| 2.1 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i gynllunio ei raglen gyfalaf? | • Wrth ddatblygu ei raglen a'i strategaeth gyfalaf mae'r Cyngor:<br>– Yn cynnwys ystod ac amrywiaeth briodol o leisiau (gan gynnwys sefydliadau eraill/cynrychiolwyr aelodau o grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig).<br>– Yn ystyried sut y bydd yn cyrraedd nodau tymor hwy (h.y. ei amcanion llesiant) a sut y gall gyflawni ystod o fanteision.<br>– Yn nodi'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni a sut y bydd yn monitro'r modd y'u cyflawnir.<br>– Yn adnabod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth dros y tymor byr, canolig a hwy ac yn ystyried goblygiadau ei raglen o ran fforddiadwyedd a refeniw.<br>– Yn deall effaith benthyca (Gofyniad Cyllido Cyfalaf) dros y tymor byr, canolig a hwy, ac yn cynnwys hyn fel ystyriaeth yn ei gynllun ariannol tymor canolig.<br><br>• Wrth gynllunio prosiectau cyfalaf unigol, mae'r Cyngor:<br>– Yn cynnwys ystod ac amrywiaeth briodol o leisiau.<br>– Yn ystyried sut y bydd yn cyrraedd nodau tymor hwy (h.y. y rhai yn y strategaeth a'i amcanion llesiant) a sut y gall gyflawni ystod o fanteision.<br>– Yn gweithio gydag eraill (yn fewnol ac yn allanol) i gyflawni'r manteision hynny.<br>– Yn nodi'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni a sut y bydd yn mesur gwerth am arian y prosiect dros y tymor byr, canolig a hir.<br>– Yn adnabod yr adnoddau/benthyciadau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth dros y tymor byr, canolig a hwy (costau oes gyfan) a sut y bydd yn rheoli risgiau/ cwrdd â'r costau hynny gan ategu hynny â thybiaethau ariannol rhesymol.<br>– Yn adnabod risgiau allweddol ar gyfer y prosiectau a sut y byddant yn cael eu rheoli.<br>– Yn nodi graddfeydd amser eglur ar gyfer cyflawni. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio[8] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
| --- | --- |
| 2.2 A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fonitro a rheoli'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf? | • Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro'r modd y cyflawnir ei raglen gyfalaf a phrosiectau unigol o safbwynt gwerth am arian gan gynnwys:<br>– Cyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb<br>– Effaith prosiectau a gwblhawyd mewn perthynas ag amcanion tymor byr, canolig a hir y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor yn gweithredu lle nad yw prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn y gyllideb a/neu ar amser.<br>• Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb.<br>• Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei raglen gyfalaf.<br>• Mae'r Cyngor yn gwerthuso a wnaeth prosiectau cyfalaf gyflawni eu manteision bwriadedig. |

[8] Goleuwyd ein meini prawf archwilio gan ein gwybodaeth gronnus am waith archwilio blaenorol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i ategu ein harchwiliadau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio[8] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano) |
|---|---|
| 2.3 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli ei raglen gyfalaf? | • Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli ei raglen gyfalaf gan gynnwys:<br>– darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd trefniadau o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor yn dysgu oddi wrth gynghorau tebyg eraill ac yn cymharu ei sefyllfa â hwy (e.e. y grŵp Dinasoedd Craidd), er enghraifft i ddeall sut y mae ei fenthyciadau'n cymharu ag eraill.<br>• Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflawni ei raglen gyfalaf yn eang ar draws y sefydliad, a chyda phartneriaid lle y bo'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwiluio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.